

Teithiau Cysegredig

Rural Conwy

Sacred Trails



Dewch ar siwrnai o ddarganfod
drwy ein Drysau Cysegredig yn
nhirlun godidog Conwy wledig...

Take a journey of discovery through
our Sacred Doorways, set within the
breathtaking landscape of rural Conwy...



Drysau Sacred
Cysegredig Doorways

Mae'r Prosiect Drysau Cysegredig yn fenter dwristiaeth wedi'i chyllido trwy Gynllun Datblygu Gwledig Conwy. Mae'r prosiect yn gweithio gydag eglwysi a chapeli hanesyddol ar draws Conwy wledig i godi eu proffil fel atyniadau ymwelwyr, ac annog eu cynnaladwyedd trwy dwristiaeth dreftadaeth.

Datblygwyd teithiau Drysau Cysegredig i gynnig cyfle i chi deithio rhwng yr eglwysi a chapeli yn Nyffryn Conwy. Mae'r teithiau wedi'u cyflwyno mewn pedwar clwstwr i chi eu harchwilio naill ai mewn car neu ar hyd llwybr cerdded dynodedig.

The Sacred Doorways Project is a tourism initiative funded through Conwy's Rural Development Plan. The project is working with historic churches and chapels across rural Conwy to raise their profile as visitor attractions, and encourage their sustainability through heritage tourism.

Sacred Doorways trails have been developed to offer you the opportunity to travel between the churches and chapels in the Conwy Valley. The trails are neatly packaged into four clusters for you to explore either by car or designated walking route.

I gael rhagor o wybodaeth am y Prosiect Drysau Cysegredig ewch i:
www.drysaucysegredig.co.uk

For further information about the Sacred Doorways Project please visit:
www.sacreddoorways.co.uk

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn fel rhan o'r Prosiect Drysau Cysegredig ar ran Partneriaeth Ddatblygu Gwledig Conwy dan y Cynllun Datblygu Gwledig a gyllidir gan yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru

This booklet has been published as part of the Sacred Doorways Project on behalf of Conwy Rural Development Partnership under the EU and Welsh Assembly Government funded Rural Development Plan


Drysau Sacred
Cysegredig Doorways



Ymgynghorwyr NCompass: Suryiah Evans
Ffotograffau: Sioned Sims a Sheridan Goodey
Lluniau a gwaith celf: Wendi Williams-Shiel a William Smuts
Dyluniad y llawlyfr: William Smuts

NCompass Consultants: Suryiah Evans
Photographs: Sioned Sims and Sheridan Goodey
Illustrations and artwork: Wendi Williams-Shiel and William Smuts
Booklet design: William Smuts

O ddynion sanctaidd i ddynion drwg, pendefigion i bererinion, a llenorion i ladron, bydd taith y Drysau Cysegredig yn eich tywys trwy filoedd o flynyddoedd o'n hanes cyfareddol.

Mae'r eglwysi a chapeli ar daith wedi'u lleoli mewn trefi bach a phentrefi traddodiadol ar draws Dyffryn Conwy. Mae rhai ohonynt yn amlwg yn y tirwedd.

Nid yw llawer mor amlwg. Efallai dewch o hyd i eglwys yn swatio ger afon droellog i lawr lôn wledig anghysbell, neu hyd yn oed ar gopa mynydd.

Mae gan pob eglwys a chapel ar daith y Drysau Cysegredig stori unigryw i'w dweud, â thrysorau cudd i'w datgelu. Maen't ar agor* i chi eu harchwilio –

*yr hyn oll rydych ei angen
yu eich dychymyg....*

From saints to sinners, princes to pilgrims, and bards to bandits, the Sacred Doorways trail will guide you through thousands of years of our fascinating history.

The churches and chapels on the trail lie in the traditional small towns and villages across the Conwy Valley. Some of them are prominent in the landscape, but others are a little harder to find, perhaps nestling beside a meandering river, down a remote country lane, or even at the top of a mountain.

Each church and chapel on the Sacred Doorways trail has a unique story to tell, and hidden treasures to find. They are open* for you to explore –

*all you need to bring is
your imagination....*

Deall' ein Eglwysi

Reading our Churches

Cynnwys Contents

YR ALLOR

Yn nhu blaen yr eglwys, ar ffurf bwrdd wedi ei godi, nodi'r ble mae'r Cymun Bendigaid yn cael ei weini. Yn nyddiau'r Hen Destament arferid aberthu wrth yr allor.

ALTAR

At the front of the church, a raised table, symbolising where the Eucharist or Holy Communion is celebrated. In Old Testament times it would have been used for sacrifice.

FFENESTR Y DWYRAIN

Uwch ben yr allor ac yn aml ô wydr lliw. Mae'r gynulleidfa fel arfer yn wynebu'r dwyrain wrth eistedd yng nghorff yr eglwys, gan edrych tuag at ffenestr y dwyrain.

EAST WINDOW

Above the altar, and often made from stained glass. The congregation usually faces east when sitting in the nave, looking towards the east window.

Y CYSEGR

Yn nhu blaen eithaf yr eglwys wrth yr allor, ac wedi'i wahanu oddi wrth y gangell gan ris a / neu reilen. Fel arfer y clergwyr a'r rhai sy'n eu helpu i weini'r cymun yn unig, sy'n sefyll yma.

SANCTUARY

At the very front of the church where the altar is placed, and separated from the chancel by a step and / or rail. Usually it is just the clergy, and those helping with the distribution of communion, who stand here.

SGRIN GROG

Sgrin bren fel arfer sy'n gwahanu corff yr eglwys oddi wrth y gangell. Byddai ambell sgrin wedi bod yn rhan o oriel uwchben – ar gyfer cantorion ac offerynwyr.

ROOD SCREEN

A screen, usually made of wood, that separates the nave from the chancel. Some rood screens would have a loft above, mainly for musicians and singers.

Y PULPUD

Yn nhu blaen corff yr eglwys, ar lefel uwch fel bod y gynulleidfa yn gallu gweld y pregethwr yn traddodi'r bregeth.

PULPIT

At the front of the nave, and raised so that the congregation can see the preacher standing to give the sermon.

Y GANGELL

Yn gwahanu corff yr eglwys oddi wrth y gangell. Bydd y côr yn eistedd yma fel arfer.

CHANCEL

Separating the nave and the sanctuary, and usually where the choir would sit.

CROESFA

Lleoedd y naill ochr a'r llall i'r eglwys sy'n creu siâp croes i'r adeilad (croesffurf).

TRANSEPT

Areas either side of the church that form the building into the shape of a cross (cruciform).

Y DDARLLENFA

Fel arfer y nhu blaen corff yr eglwys, wrth ochr y pulpud. Ble gosodryr Beibl ar y ddarllenfa ac mae pobl yn darllen y llithoedd i'r gynulleidfa o'r fan yma.

LECTERN

Usually at the front of the nave, often standing equal to the pulpit. Where the Bible is placed, and people stand to read from the Bible.

Y BEDYDDFAEN

Mae'r bedyddfaen fel arfer wrth y drws oherwydd ei fod yn cynrychioli dechrau'r daith Gristnogol Mae'r dŵr yn cael ei fendithio yma ar gyfer bedydd.

FONT


Usually a stone structure, and placed by the door as it represents the start of a Christian journey. Water is blessed here for Baptism.

CORFF YR EGLWYS

Man canol yr eglwys, lle mae'r gynulleidfa yn eistedd.

NAVE

The central area of the church, where the congregation sits.



Taith Un / Trail One	6
Map Taith Un / Trail One Map	8
Taith Dau / Trail Two	10
Map Taith Dau / Trail Two Map	12
Darganfod Conwy Wledig / Exploring Rural Conwy	14
Taith Tri / Trail Three	16
Map Taith Tri / Trail Three Map	18
Taith Pedwar / Trail Four	20
Map Taith Pedwar / Trail Four Map	22
Mynediad / Access	24
Trafnidiaeth / Transportation	26



Darganfod... Hiraethog Gysegredig

Discover... Sacred Hiraethog

Eglwys Sant Mihangel Llanfihangel Glyn Myfyr

Man geni Owain Myfyr, ac ysbrydoliaeth Wordsworth, mae'r eglwys hardd hon mewn tirwedd sydd wedi dylanwadu ar ysgrifenyddwyr a beirdd ers canrifoedd.

St Michael's Church Llanfihangel Glyn Myfyr

The birthplace of Owain Myfyr, and inspiration to Wordsworth, this beautiful church nestles in a landscape that has influenced writers and poets for centuries.

Eglwys Santes Fair Magdalen Cerrigydrudion

Porthmyn, morladron, a chwedl enwog y diafol yn yr eglwys - mae Eglwys Mair Magdalen wedi'i lleoli yng nghanol Hiraethog, tirwedd odidog sy'n enwog am ei haneddiadau a'i charneddau cynnar

St Mary Magdalene's Church Cerrigydrudion

From drovers to pirates, and the famous legend of the devil in the church - St Mary Magdalene's is situated in the heart of Hiraethog, a magnificent landscape known for its early settlements and cairns.

Eglwys Plwyf Pentrefoelas Pentrefoelas

Mewn pentref Cymreig traddodiadol, mae'r eglwys hardd hon yn dyst i fywyd mewn lleoliad gwledig â chenedlaethau o'r teulu Wynn. Cewch edrych ar arddangosfa hanes y pentref, a tra rydych yma ceisiwch ddod o hyd i'r mefus yn y ffenestr lliw.

Pentrefoelas Parish Church Pentrefoelas

Set within a traditional Welsh village, this lovely church bears testimony to rural estate life, and generations of the Wynne family. Explore the exhibition of village history, and while you are there, see if you can spot the strawberry in the stained glass.

Eglwys Sant Ioan Ysbyty Ifan

Marchogion, ysbeilwyr, pererinion, beirdd a chyndadau un o Arlywyddion America – mae gan Eglwys Sant Ioan gyfoeth o straeon a chwedlau difyr lleol.

St John's Church Ysbyty Ifan

Knights, bandits, pilgrims, poets and the ancestors of an American President – St John's Church is a treasure trove of fascinating tales and local legends.


Eglwys Sant Tudclud Penmachno

Archwiliwch y casgliad eithriadol o gerrig wedi'u hysgythru a dyfalu a yw un ohonynt yn fedd i Iorweth ab Owain Gwynedd, tad Llywelyn Fawr.

St Tudclud's Church Penmachno

Explore the outstanding collection of inscribed stones and speculate whether one of them is

indeed the gravestone of Iorweth ab Owain Gwynedd, father of Llywelyn the Great.





OS Map: OL18, OL17 & OS264
 Llanfihangel Glyn Myfyr -
 Cerrigydrudion - **2.5 milltir/miles**
 Cerrigydrudion - Pentrefoelas -
7 milltir/miles
 Pentrefoelas - Ysbyty Ifan - **3 milltir/miles**
 Ysbyty Ifan - Penmachno - **4.5 milltir/miles**



	Eglwys/Capel Church/Chapel
	Taith Gerdded/ Walking Trail
	Taith Yrru/Car Route
	Gorsaf Dren/Railway Station

Darganfod... Eryri Gysegredig

Discover... Sacred Snowdonia

Eglwys Sant Gwyddelan Dolwyddelan

Mae Eglwys Sant Gwyddelan wedi'i lleoli yn harddwch Dyffryn Lledr, ger castell Dolwyddelan, honnir mai dyma fan geni Llywelyn Fawr. Byddwch yn teimlo eich bod wedi mynd yn ôl mewn amser wrth i chi edrych o amgylch yr eglwys ganoloesol hardd hon - ond gwyliwch rhag draig Dolwyddelan sy'n cuddio yn y trawstiau.

St Gwyddelan's Church Dolwyddelan

In the heart of the breathtaking Lledr Valley, St Gwyddelan's is situated close to Dolwyddelan castle, the reputed birthplace of Llywelyn the Great. Take a step back in time as you explore this beautiful medieval church – but beware of the Dolwyddelan dragon hiding in the beams.

Eglwys y Santes Fair

Betws-y-coed

Ymgollwch yn ysblander y ffenestri lliw; a dychmygwch y lle yn llenwi â chaneuon i ysbrydoli yn ystod anterth cyfnod artistiaid Betws-y-coed.

St Mary's Church

Betws-y-coed

Immerse yourself in the splendour of the stained glass; and imagine the air filled with uplifting song during the heyday of the artists colony in Betws-y-coed.

Eglwys Sant Mihangel

Betws-y-coed

Mae Eglwys Sant Mihangel yn hafan dawel mewn pentref prysur, ac mae wedi bod yn ysbrydoliaeth i artistiaid ers canrifoedd. Mae arddelw Gruffudd ap Dafydd Goch, gor-wyr Llywelyn Fawr yma ac mae'r eglwys yn agor y drws i bennod arall yn hanes Tywysogion Gwynedd.

St Michael's Church

Betws-y-coed

St Michael's is a haven of tranquility in this bustling village, and has been an inspiration to notable artists for centuries. The effigy of Gruffudd

ap Dafydd Goch, great-grandson of Llywelyn the Great lies here, and the church holds the key to another chapter in the Princes of Gwynedd story.

Eglwys Sant Julitta

Capel Curig

Eglwys Sant Julitta, yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri, yw'r lleiaf o hen eglwysi Eryri. Cewch edrych ar un o arddangosfeydd mwyaf poblogaidd yr eglwys, cerdded o amgylch y fynwent, a chanfod stori drasig bywyd Sant Julitta.

St Julitta's Church

Capel Curig

In the centre of the Snowdonia National Park, St Julitta's is the smallest of the old churches of Snowdonia. Browse one of the church's popular exhibitions, take a tour of the churchyard, and uncover the tragic story of the life of St Julitta.

 Eglwys/Capel
Church/Chapel
 Taith Gerdded/
Walking Trail
 Taith Yrru/Car Route
 Gorsaf Dren/Railway Station

**PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK**

Castell
Dolwyddelan
Castle

Dolwyddelan

Betws-y-coed

Penmachno

OS Map: OL17 & OL18
 Penmachno -
 Dolwyddelan - **6 milltir/miles**
 Dolwyddelan - Betws-y-coed -
6 milltir/miles
 Dolwyddelan - Capel Curig -
5 milltir/miles
 Betws-y-coed - Capel Curig
 (lower route - **5 milltir/miles**
 Betws-y-coed - Capel Curig (upper route -
6 milltir/miles



Darganfod Conwy Wledig

Gobeithiwn bydd y llyfryn hwn yn eich annog i archwilio'r eglwysi a chapeli ym mhentrefi 'cudd' Conwy wledig, yn ogystal â'r trefi a chanolfannau twristaidd poblogaidd. Ewch i'r Ganolfan Groeso leol neu gwiriwch yr wybodaeth sydd ar gael ar y ciosgau gwybodaeth digidol sydd wedi'u lleoli mewn gwahanol fannau ar draws Conwy wledig, i ddarganfod llefydd eraill o ddiddordeb gallwch eu cynnwys yn eich ymweliad. Byddwch wedi'ch syfrdanu gan y perlau cudd sydd ar gael!

Exploring Rural Conwy

We hope that this brochure will encourage you to explore the churches and chapels in the 'hidden' villages of rural Conwy, as well as the popular towns and tourist hubs. Please visit the local Tourist Information Centre or check information available on the digital information kiosks situated at various points across rural Conwy, to find other places of interest that you could build into your visit. You will be amazed at the hidden gems on offer!

Darganfod... Teyrnas Gysegredig

Discover... Sacred Kingdom

Eglwys Sant Crwst a Chapel Gwydir, Llanrwst

Yn hafan dawel mewn tref hanesyddol, mae Eglwys Sant Crwst â Chapel Gwydir gerllaw dyfroedd yr Afon Gonwy. O'r drws pren cerfiedig yr eglwys, i arch carreg Llywelyn Fawr yn y capel, sicrhewch fod gennych ddigon o amser i archwilio'r bensaernïaeth odidog a straeon am dywysogion, beirdd, brwydrau ac ysgolheigion.

St Grwst's Church & Gwydir Chapel, Llanrwst

An oasis of calm in the heart of this historic town, St Grwst's Church and Gwydir Chapel sit alongside the waters of the River Conwy. From the richly carved rood screen in the church, to the stone coffin of Llywelyn the Great in the adjoining chapel, allow yourself sufficient time to explore the magnificent architecture, and uncover fascinating tales of princes, bards, battles and scholars.

Eglwys Sant Ddoged Llanddoged, Llanrwst

Wrth gerdded i mewn i'r eglwys fechan hon fe sylwch ei bod yn hollol wahanol i'r eglwysi eraill ar y daith.

Dewch i ganfod beth sy'n ei gwneud mor anghyffredin, ac eisteddych ymysg bonheddwyr y 19eg ganrif.

St Doged's Church Llanddoged, Llanrwst

As soon as you enter this quaint little church you will notice that it is unlike any of the others on our trail. Discover what makes the interior so unusual, and take your seat among the gentry of the 19th century.

Gwydir Uchaf Llanrwst

Adeiladwyd Gwydir Uchaf fel capel coffa gan y teulu Wynn o Gwydir, ac mae ochr allan syml Gwydir Uchaf yn hollol wahanol i'r tu mewn llafurfawr, gyda nenfwd hardd wedi'i baentio a gwaith pren cerfiedig.

Gwydir Uchaf Llanrwst

Built as a memorial chapel by the Wynne family of Gwydir, the simple exterior of Gwydir Uchaf masks an elaborate interior, with a splendid painted ceiling and beautifully carved woodwork.

Eglwys Sant Rhychwyn Llanrhychwyn

Ar droed neu yn y car, mae'r daith i'r eglwys yn antur ynnddi ei hun. Honnir mai Eglwys Sant Rhychwyn yw'r eglwys hynaf yng Nghymru, ac mae wedi'i lleoli yn y dirwedd yn uchel uwchben coedwig Gwydir. Dysgwch

pam ei bod yn cael ei galw'n 'Hen Eglwys Llywelyn' a dysgwch am bennod arall yn hanes Tywysogion Gwynedd.

St Rhychwyn's Church Llanrhychwyn

On foot or by car, the journey to this church is an adventure in itself! Reputedly the oldest church in Wales, St Rhychwyn's is embedded in the landscape high above Gwydir forest. Find out why it is known as 'Llywelyn's Old Church' and open the chapters on the remarkable stories of the Princes of Gwynedd.


Eglwys Santes Fair Trefriw

Mae'r eglwys wedi'i lleoli ger llwybr hynafol ym mhentref hyfryd Trefriw, ac yma y gwelwch y ffenestr liw enwog sy'n dangos Llywelyn Fawr a'i wraig Siwan. Ond mae llawer mwy i'w weld yn y pentref – codwch gopi o Llwybr Treftadaeth Trefriw i'ch helpu i grwydro a dysgu mwy am ein hanes.

St Mary's Church Trefriw

At the foot of an ancient track in the charming village of Trefriw, it is here you will see the famous stained glass window featuring Llywelyn the Great and his wife Joan.

But there's lots more to see in the village—pick up a copy of the Trefriw Heritage Trail to help you explore and learn more about our historic past.




-  Eglwys/Capel
Church/Chapel
-  Taith Gerdded/
Walking Trail
-  Taith Yrru/Car Route
-  Gorsaf Dren/Railway Station



PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

Coedwig
Gwydir
Forest

OS Map: OL17
 Betws-y-coed - Gwydir Uchaf -
3 milltir/miles
 Gwydir - Llanrhychwyn -
2 milltir/miles
 Llanrhychwyn - Trefriw - **1.5 milltir/miles**
 Llanrwst - Trefriw - **2.5 milltir/miles**
 Llanddoged - Llanrwst - **3 milltir/miles**



Darganfod... Tiruedd Gysegredig

Discover... Sacred Landscapes

Eglwys Sant Pedr Llanbedr-y-Cennin

Mae chwedlau bywydau lleol wedi datblygu yn yr eglwys brydferth hon ym mhentref hardd Llanbedr-y-Cennin. Cewch ddarganfod sut deimlad oedd dod i'r ysgol yma yn yr 18fed ganrif, ac os ydych yn mwynhau gwylio adar, cofiwch ddod â'ch ysbiendrych, oherwydd mae'r fynwent yn adnabyddus am fod yn gartref i amryw o rywogaethau.

St Peter's Church Llanbedr-y-Cennin

Tales of local lives unfold in this beautiful church, situated in the pretty village of Llanbedr-y-Cennin. Discover what it would have been like to go to school here in the 18th century; and if you enjoy birdwatching, remember your binoculars, as the churchyard is well-known for playing host to a variety of species.

Eglwys Santes Fair Caerhun

Mewn lleoliad tawel ar lan Afon Conwy, mae Eglwys y Santes Fair yn cynnig hafan dawel ar safle â oedd yn Gaer Rufeinig ar un adeg. Rhannwch ddirgelwch y garreg fedd yn y tô a'r esgyrn dynol a ganfuwyd yn wal yr eglwys.

St Mary's Church Caerhun

Nestling quietly alongside the banks of the River Conwy, St Mary's offers peaceful sanctuary on a site that was once a bustling Roman Fort. Share in the mysteries of the gravestone in the roof and the human bones found in the church wall.

Capel Seion Rowen

Enghraifft arbennig o gapel Cymreig traddodiadol a adeiladwyd yn ystod oes aur adeiladu capeli yn y 19eg ganrif. Bydd arddangosfa Capel Seion yn eich tywys drwy'r digwyddiadau â arweiniodd at dŵf Anghydfurfiaeth, ac mae'n creu darlun o fywydau'r preswylwyr lleol yn nechrau'r 20fed ganrif.

Zion Chapel Rowen

A fine example of a traditional Welsh chapel built during the 'great age of chapel building' in the 19th century. Zion Chapel's exhibition will take you through the events that led to the growth of Nonconformism, and paints a picture of the lives of local residents during the early 20th century.


Eglwys Sant Celynnin Llangelynnin

Mae'n bosibl mai Eglwys Sant Celynnin a'r Ffynnon Sanctaidd, sy'n gorffwys yn y creigiau uwchben Dyffryn Conwy, yw cyfrinachau mwyaf Conwy, gan ddangos gweddillion diwylliannau ac oesau hynafol.

St Celynnin's Church Llangelynnin

Perhaps one of Conwy's best-kept secrets, St Celynnin's Church and Holy Well rest amidst rocky outcrops high above the Conwy Valley, revealing remnants of ancient cultures and times past.




-  Eglwys/Capel
Church/Chapel
-  Taith Gerdded/
Walking Trail
-  Taith Yrru/Car Route
-  Gorsaf Dren/Railway Station



PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK



OS Map: OL17
 Gorsaf/Station - Caerhun - **1 milltir/mile**
 Caerhun - Llanbedr-y-Cennin - **1.5 milltir/miles**
 Llanbedr-y-Cennin - Rowen - **2 milltir/miles**
 Rowen - Llangelynnin - **3 milltir/miles**



Betws-y-coed
Eglwys Santes Fair/St Mary's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH794562
Ffon/Tel: 01690 710313
Amseroedd Agored/Opening Times: 9am – 5.30pm*
Parcio/Parking: Maes parcio talu ac arddangos
Eglwys y Santes Fair, neu faes parcio cyhoeddus
Betws-y-coed /St Mary's Church pay & display
car park next to church or Betws-y-coed public
car park

Betws-y-coed
Eglwys Sant Mihangel/St Michael's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH795565
Ffon/Tel: 01690 710333
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 5.30pm*
Parcio/Parking: Maes parcio talu ac arddangos
Eglwys y Santes Fair, neu faes parcio cyhoeddus
Betws-y-coed (taith gerdded tua 300m)/
St Mary's Church pay & display car park, or
Betws-y-coed public car park (approx 300m walk)

Caerhun
Eglwys Santes Fair/St Mary's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH776704
Ffon/Tel: 01492 650250
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 5pm*
Parcio/Parking: Lle parcio o flaen y fynwent/
Parking area in front of churchyard

Capel Curig
Eglwys Santes Julitta/St Julitta's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH718579
Ffon/Tel: 01865 750067 or 01286 871057
Amseroedd Agor/Opening Times: 9am – 5.00pm
*(mae'r goriad ar gael o siop y pentref)/
9am – 5.00pm *(please obtain key from village shop)
Parcio/Parking: Parcio cyfyngedig ger yr eglwys/
Limited parking adjacent to church
www.stjulittas.org

Cerrigydrudion
**Eglwys Santes Fair Magdalen/
St Mary Magdalene's Church**

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH953487
Ffon/Tel: 01490 420900
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 5.30pm*
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd/Roadside

Dolwyddelan
Eglwys Sant Gwyddelan/St Gwyddelan's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH735522
Ffon/Tel: 01690 750257
Amseroedd Agored/Opening Times: 9am – 5pm*
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd/Roadside

Llanbedr-y-cennin
Eglwys Pedr Sant/St Peter's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH760695
Ffon/Tel: 01492 650250
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 5pm*
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd/Roadside

Llanddoged (near Llanruster)
Eglwys Sant Ddoged/St Ddoged's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH805637
Ffon/Tel: 01492 640223
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 5pm*
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd/Roadside

Llanfihangel Glyn Dyfyr
Eglwys Sant Mihangel/St Michael's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH989494
Ffon/Tel: 01490 420613
Amseroedd Agored/Opening Times: 8am – 9pm
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd neu faes picnic
tua 200m heibio'r eglwys/Roadside or picnic area
approximately 200m past church

Llangelynnin (near Rowen)
Eglwys Sant Celynnin/St Celynnin's Church

Côd Post Agosaf/Nearest Postcode: LL32 8TY
Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH770735
Ffon/Tel: 01492 650250
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 6pm
Parcio/Parking: Lle parcio tua 500m o'r eglwys/
Parking area approximately 500m from church

Llanrhychuain (near Llanrwst)
**Eglwys Sant Rhychwyn/
St Rhychwyn's Church**

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH774616
Ffon/Tel: 01492 650250
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 6pm
Parcio/Parking: Ar gyfer un car yn y buarth ger
yr eglwys, ac yn y porth gyferbyn. Nodwch
fod hon yn fferm weithredol, a gofynnwn i chi
gymryd gofal i beidio â rhwystro mynediad i
gerbydau. Gwirwch fapiau OS/leol ar gyfer
opsynau parcio islaw i'r eglwys/
For one car in the farmyard by the church, and in
gateway opposite. Please note this is a working
farm, and we ask that care is taken not to
obstruct vehicles. Please check OS/local maps
for parking options below the church.

Llanruster
**Eglwys Sant Grwst & Capel Gwydir/
St Grwst's Church & Gwydir Chapel**

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH797616
Ffon/Tel: 01492 640223
Amseroedd Agored/Opening Times: 9.30am – 5pm
Parcio/Parking: 2 faes parcio cyhoeddus, tua 20m
o'r eglwys â 500m o'r eglwys/2 public car parks,
approx 20m from church and 500m from church

Llanruster
Capel Gwydir Uchaf/Gwydir Uchaf Chapel

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH794609
Ffon/Tel: 01492 641687
Amseroedd Agor/Opening Times: Trwy
apwyntiad, ffoniwch cyn ymweld*/By
appointment, please telephone prior to visit*
Parcio/Parking: Ger y capel/Adjacent to chapel

Pentrefoelas
Eglwys Plwyf/Parish Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH873515
Ffon/Tel: 01690 770647
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am to 5pm*
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd neu faes
parcio tua 100m o'r eglwys/Roadside or public
car park approx 100m from church

Penmachno
Eglwys Sant Tudclud/St Tudclud's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH789505
Ffon/Tel: 01690 760338
Amseroedd Agored/Opening Times: 9am – 5pm*
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd/Roadside

Trefriau
Eglwys Santes Fair/St Mary's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH781632
Ffon/Tel: 01492 650250
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 5pm*
Parcio/Parking: Maes parcio cyhoeddus tua
300m o'r eglwys/Public car park, approx 300m
from church

Rowen
Capel Seion/Zion Chapel

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH758720
Ffon/Tel: 01492 650216
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 6pm
Parcio/Parking: Fel arfer mae llefydd parcio ar
gael ar ymyl y ffordd yn agos at y capel. Maes
parcio cyhoeddus mawr ar y troad cyntaf i'r dde
ar ôl cyrraedd y pentref/Roadside parking usually
available near chapel. Large public car park first
right on entering the village

Ysdyty Ifan
Eglwys Sant Ioan/St John's Church

Cyfeirnod Grid/Grid Ref: SH843489
Ffon/Tel: 01690 770249
Amseroedd Agored/Opening Times: 10am – 6pm
Parcio/Parking: Wrth ymyl y ffordd/Roadside

* **N**odwch fod yr eglwysi a chapeli ar y daith hon yn dibynnu ar haelioni gwirfoddolwyr i'w hagor a'u cau bob dydd. Yn ystod misoedd y gaeaf, ac yn enwedig pan fyddwn yn cael tywydd garw (wel, rydym yng Nghymru wedi'r cwbl!) argymhellir eich bod yn ffonio i wirio os yw'r eglwys/capel ar agor cyn i chi ymweld. Os nad yw'r adeilad ar agor, bydd manylion lle i gael y goriad ar gael ger mynedfa'r eglwys/capel.

Mae'r eglwysi a chapeli yn gweithio tuag at agor eu drysau i ymwelwyr yn ystod pob tymor gymaint â phosibl, gan gyfrannu at nod Gogledd Cymru i fod yn lle gwych i ymweld ag o gydol y flwyddyn.

Y Mapiau

Mae mapiau'r teithiau yn dynodi lleoliadau, ond mae mapiau Arolwg Ordnans yn darparu mwy o fanylion. Os ydych chi'n bwriadu cerdded rhannau o'r daith, argymhellwn eich bod yn mynd â map Arolwg Ordnans gyda chi.

Beicio

Mae llwybrau beicio oddi ar y ffordd ddynodedig ledled Conwy wledig, ac mae manylion o'r llwybrau hyn ar gael o Ganolfannau Croeso.

Gyrru

Gellir gyrru at rai o'r trefi a phentrefi mwy ar daith y Drysau Cysegredig ar hyd ffordd A, ac mae'r rhan fwyaf o'r pentrefi llai wedi'u harwyddo'n dda o'r ffordd hyn. Ond, byddwch chi'n darganfod bod ffordd B, lonydd cefn gwlad cul a thraciau sengl troellog yn arwain at lawer o'r eglwysi a chapeli. Byddwch yn ofalus wrth yrru ar y ffordd hyn, a gadewch ddigon o amser ar gyfer eich siwrnai.

Cerdded

Mae'r mapiau yn nodi llwybrau gan ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus. Cyfeiriwch at eich map Arolwg Ordnans i gael manylion y llwybr. Mae pob llwybr â chyfeirbwyntiau a gallent groesi camfeydd, tir anwastad neu fannau gwlyb. Byddwch yn barod; mae esgidiau a dillad addas yn hanfodol ar gyfer cerdded gydol y flwyddyn. Mae rhai o'r teithiau cerdded dros fryniau a rhosydd, gwisgwch ddillad addas ar gyfer y tywydd a'r tirwedd, ac argymhellwn eich bod yn mynd â dŵr gyda chi.

Cludiant cyhoeddus

I gael manylion ynglŷn â chludiant cyhoeddus cysylltwch â Traveline Cymru: www.traveline.org.uk / 0871 200 2233

Pa bynnag ffordd rydych chi'n dewis i fwynhau llwybr y Drysau Cysegredig, dilynwch y Côd Cefn Gwlad.

Mynediad i bobl ag anafledd

Mae llawer o'r eglwysi a chapeli sy'n rhan o'r prosiect yn gweithio'n galed i wneud eu hadeiladau mor hygyrch â phosibl. Defnyddiwch rifau ffôn yr eglwysi i ofyn am fynediad a'r cyfleusterau sydd ar gael.

Yr eglwysi a'r capeli

Mae'r eglwysi a'r capeli ar y daith yn croesawu ymwelwyr. Cofiwch eu bod yn fannau addoli a myfyrio, a gofynnwn i chi barchu'r dreftadaeth a werthfawrogir yn fawr gan y cymunedau lleol. Nid yw'r eglwysi a'r capeli yn codi tâl mynediad, â dibynnant ar haelioni ymwelwyr i'w helpu i gynnal yr adeiladau a gwella'r profiad i ymwelwyr. Gwerthfawrogir pob rhôdd at gynnal yr adeiladau yn fawr iawn.

* **P**lease note that the churches and chapels on this trail rely on the generosity of volunteers to open and close them daily. During the winter months, and particularly when we experience harsher weather conditions (well, this is Wales after all!) it is recommended that you telephone to check if the church/chapel is open prior to your visit. If the building is not open, details of where to obtain the key will be available near the church/chapel entrance.

As much as possible, churches and chapels are working towards opening their doors to visitors throughout the seasons, contributing to North Wales' aim to become a great place to visit all year round.

The Maps

The trail maps give an indication of location, but Ordnance Survey maps provide more detail. If you are planning on walking parts of the trail, we recommend you take an Ordnance Survey map with you.

Cycling

There are designated off-road cycling routes throughout rural Conwy, and details of these tracks are available from Tourist Information Centres.

Driving

Some of the towns and larger villages on the Sacred Doorways trail are accessible via A-roads, and most of the smaller villages are well sign-posted from these roads. You will find however, that many of the churches and chapels are accessed via B-roads, narrow country lanes and winding single tracks. Please be careful when you are driving these roads, and allow sufficient time for your journey.

Walking

The maps indicate trails using public rights of way. Please refer to your Ordnance Survey map for details of the route. All routes are waymarked and may cross stiles, uneven ground and wet areas. Be prepared; suitable footwear and clothing are essential for walking throughout the year. Some of the walks are over hills and moors, please dress appropriately for the weather and the terrain, and we recommend that you take water with you.

Public transport

For details of public transport contact Traveline Cymru: www.traveline.org.uk / 0871 200 2233

Whichever way you choose to enjoy the Sacred Doorways trail, please abide by the Countryside Code.

Disabled access

Many of the churches and chapels involved in the project are working hard to make their buildings as accessible as possible. Please use the church contact telephone numbers to enquire about access and the facilities available.

The churches and chapels

The churches and chapels on the trail welcome visitors. Please remember that they are places of worship and contemplation, and we ask that you respect the heritage that is much valued by the local communities. The churches and chapels do not charge an entry fee, and rely on the generosity of visitors to help them maintain the buildings and enhance the visitor experience. All donations towards upkeep are greatly appreciated.

Saints

TYWYSDGION

Poets

Seintiau

Princes

YSGOLBEIGION

Beirdd

Crefftwyr

Knights

Artisans

Ysbeilwyr

Bandits

Marchogion

Scholars

